




CYNGOR BRO MORGANNWG  
CYNLLUN GWELLA ac AMCANION LLESIANT Rhan I:  
AMCANION GWELLA 2018-19

CRYNODEB CYHOEDDUS

Cymunedau  
Cryf â  
Dyfodol  
Disglair

Mai 2018




## Mae gan ddinasyddion Bro Morgannwg ansawdd bywyd da ac maent yn teimlo'n rhan o'r gymuned leol

### Amcan Gwella 1: Lleihau tlodi ac allgau cymdeithasol

Mae trechu tlodi yn brif flaenoriaeth gan ein Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Wrth weithio tuag at yr amcan hwn gallwn sicrhau bod preswylwyr ac ymwelwyr yn teimlo'n ddiogel ac yn rhan o'r gymuned leol.

### Amcan Gwella 2: Rhoi cartrefi digonol a chymunedau diogel

Prif ffactor o ran cyfrannu at synnwyr pobl o lesiant yw cael cartref o safon a theimlo'n ddiogel yn y gymuned. Gwneir gwaith i wella mynediad at dai o safon yn ogystal â hyrwyddo diogelwch cymunedol. Trwy gadw ein stoc dai ein hunain, bydd y Cyngor yn parhau i ganolbwyntio ar sicrhau bod preswylwyr yn gallu mynd i gartrefi o safon.



### Blaenoriaethau ein Cynllun Corfforaethol

- Datblygu ac yn gweithredu Strategaethau Cynhwysiant Digidol ac Ariannol.
- Gwella mynediad at wybodaeth a chymorth ar gyfer Diwygio Lles.
- Gweithio gyda chymunedau trwy'r bartneriaeth Cymunedau Gwledig Creadigol i wella gwasanaethau a lleihau tlodi gwledig.
- Gweithredu projectau trwy'r cynllun Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid i drechu tlodi.
- Gwella sut mae'r cynlluniau Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg, Cymunedau yn Gyntaf a Chefnogi Pobl yn cyd-redeg.
- Gweithio tuag at weithredu Rhaglen Gwella Tai Cyngor a rhaglen adeiladu tai cyngor newydd.
- Gwella safon llety rhent y sector preifat a sicrhau bod llety priodol a gwasanaethau cymorth ar gael i'r grwpiau mwyaf agored i niwed.
- Cynyddu nifer y tai cynaliadwy a fforddiadwy yn y Fro.
- Gweithredu Strategaeth Diogelwch Cymunedol a gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu dulliau newydd o fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a thrais domestig.

### Yn 2018/19, byddwn yn:



Gwella mynediad at wasanaethau trwy atgyfnerthu sgiliau digidol preswylwyr trwy weithredu Strategaeth Ddigidol. Parhau i weithio â phartneriaid trwy ein cynllun 'Rhoi'r Fro Ar-lein' i annog rhyngweithio a gwella mynediad a sgiliau eto ar gyfer grwpiau a eithrir yn ddigidol.



Cynorthwyo preswylwyr i ddefnyddio ffynonellau cyngor, gwybodaeth a chymorth yn gyson, yn eu grymuso i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth ynghylch eu harian trwy ein Strategaeth Cynhwysiant Ariannol. Codi ymwybyddiaeth staff, partneriaid a thenantiaid mewn perthynas â Diwygio Lles a Chredyd Cynhwysol a lleihau effaith y newidiadau.



Cefnogi cymunedau i gael mynediad at adnoddau a datblygu eu capasiti o ran gwella a rhedeg asedau cymunedol.

Gweithredu projectau â ffocws, sy'n trechu tlodi fel rhan o raglenni Treftadaeth a Chymunedau am Waith Uwch, Buddsoddi mewn Adfywio wedi'i Dargedu, Cefnogi Pobl, Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg.



Cynnal ein stoc dai at safonau Cymru ac adnabod cyfleoedd am ddatblygu tai cyngor ychwanegol. Cwblhau gwaith adnewyddu ystadau tai fel rhan o broject Gwella'r Amgylchedd Buttrill i drawsnewid yr ardal a gwella'r cyfleusterau chwarae.

Rheoli tai cyngor gwag yn well trwy leihau'r amser a gymerir i ail-osod eiddo i'r rhai mewn angen. Gweithio gyda phartneriaid i wella nifer y cartrefi cynaliadwy a fforddiadwy i helpu pobl i mewn i'r farchnad dai.



Hyrwyddo byw'n annibynnol ar gyfer pobl hŷn, moderneiddio ardaloedd cymunedol mewn canolfannau tai gwarchod a chynnig llety a chymorth i grwpiau sy'n agored i niwed. Gwerthuso llwyddiant Ardal Adnewyddu Castleland (cynllun adfywio tai a chymunedau cynhwysol) a phennu ardal arall ar gyfer ei hadfywio.



Gwella'r rhai a dargedir gan fasnachwyr heb awdurdod, twyll a throseddau ar garreg y drws trwy roi cyngor cwsmeriaid i breswylwyr sy'n agored i niwed a chymryd camau gorfodi a dargedir mewn digwyddiadau a allai ddenu 'masnachwyr twyllodrus'.

Gweithio gyda'n partneriaid i weithredu dull mwy strategol, hirdymor o fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cynnwys gweithredu hyfforddiant cenedlaethol a gweithredu strategaeth ranbarthol.

Gwella diogelwch ein cymunedau trwy barhau i atal a mynd i'r afael â throseddau ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cynnwys gweithredu dulliau cyfiawnder adferol ar gyfer pobl ifanc a datblygu Strategaeth Diogelwch Cymunedol ar y cyd.

Gwella ein dull gweithredu ar gyfer rhannu gwybodaeth a monitro Plant sy'n Derbyn Gofal yn y System Cyfiawnder Ieuencid.




## Economi gref a chynaliadwy ym Mro Morgannwg a'r amgylchedd lleol yn cael ei ddiogelu i genedlaethau heddiw a'r dyfodol.

### Amcan Gwella 3: Hyrwyddo adfywio, twf economaidd a chyflogaeth

Parhau i adeiladu ar ein llwyddiant o weithredu projectau adfywio trwy'r Fro wrth weithio gyda'n partneriaid fel rhan o Brifddinas-Ranbarth Caerdydd i wella'r cyfleoedd i greu swyddi.

### Amcan Gwella 4 : Hyrwyddo datblygu cynaliadwy a diogelu ein hamgylchedd.

Rydym yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi ein hamgylchedd unigryw a'n nod yw ei ddiogelu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol wrth fwynhau ei harddwch ac amrywiaeth. Mae mabwysiadu dull mwy cynaliadwy o ddatblygu yn rhoi'r gallu i ni wneud y gorau o ddefnydd tir at ddibenion tai, cyflogaeth, manwerthu, twristiaeth, trafnidiaeth, mwynau, gwastraff a'r gymuned nawr ac yn y dyfodol.



## Blaenoriaethau ein Cynllun Corfforaethol

- Manteisio ar dwf economaidd, mewnfuddsoddiad a chyfleoedd cyflogaeth trwy Brifddinas-ranbarth Caerdydd, ac Ardal Fenter Maes Awyr Caerdydd a Sain Tathan.
- Cynyddu'r cyfleoedd am gyflogaeth a hyfforddiant trwy ddatblygiadau newydd, adfywio a rheoli asedau'r Cyngor.
- Gweithredu rhaglen adfywio gynhwysol trwy'r Fro.
- Gweithredu cynlluniau gwella trafndiaeth a gweithredu rhwydwaith integredig a Map Teithio Llesol ar gyfer preswylwyr i weithio'n fwy effeithlon a diogel.
- Gweithredu'r Cynllun Rheoli Cyrchfannau Twristiaeth a rhaglen ddigwyddiadau flynyddol. Cynllun Rheoli a rhaglen o ddigwyddiadau a gwyliau blynyddol.
- Mabwysiadu a gweithredu'r Cynllun Datblygu Lleol fel ein fframwaith ar gyfer datblygu cynaliadwy a'r Ardoll Seilwaith Cymunedol i wella cyfleusterau cymunedol.
- Gweithredu'r Cynllun Trafnidiaeth Lleol a gwelliannau seilwaith i Five Mile Lane.
- Gwella mynediad at drafndiaeth gyhoeddus trwy gynlluniau Teithio Consesiynol a chwblhau Ffordd Rhwydwaith Cenedlaethol 88.
- Gweithredu dull cydlynol o adfywio Ynys y Barri a Phentir Nel.
- Adolygu a gweithredu Cynllun Rheoli Carbon y Cyngor a gweithredu Strategaeth Lleihau Gwastraff i ailfodelu ein seilwaith gwastraff.
- Gwella bioamrywiaeth a chreu cynefinoedd, gweithredu'r Cynllun Rheoli Llifogydd a'r Cynllun Rheoli'r Arfordir i leihau risg/effaith llifogydd.
- Ennill pedair Gwobr Traeth Genedlaethol.

## Yn 2017/19, byddwn yn:



Gweithio mewn partneriaeth fel rhan o Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (cydweithrediad sy'n cynnwys 10 awdurdod lleol) i ddefnyddio'r Cynllun Datblygu Lleol ac Ardal Fenter Maes Awyr Caerdydd a Sain Tathan i sicrhau'r twf economaidd a chyfleoedd cyflogaeth gorau.



Manteisio ar gysylltiadau mewn projectau adfywio a buddsoddi a chyda'n partneriaid i wireddu cyfleoedd cyflogaeth lleol gan ganolbwyntio ar bobl 16-24 oed.

Gyrru projectau adfywio yn eu blaenau trwy'r Fro i ddenu buddsoddiad a chreu swyddi newydd.



Gweithredu cynlluniau gwella i ddatblygu rhwydweithiau bws, beics a cherdded trwy'r Fro. Hyrwyddo Mapiau Teithio Llesol i breswylwyr i sicrhau teithio diogel ac effeithlon.



Gwella twristiaeth trwy gynyddu nifer y digwyddiadau arloesol a chynaliadwy sy'n cefnogi'r economi leol a sefydlu'r Fro fel cyrchfan dwristiaeth trwy'r flwyddyn.

Trafod cyfleoedd i greu partneriaethau masnachol ar safleoedd y Cyngor er mwyn cynnig gweithgareddau twristiaeth.

Parhau i weithredu ein Cynllun Ailwynebu Priffyrdd a'r fenter Llenwi i sicrhau bod ein rhwydwaith priffyrdd yn ddiogel ac yn cael ei gynnal mewn cyflwr da.

Parhau i wneud gwelliannau yn gysylltiedig â Five Mile Lane a darparu hyfforddiant diogelwch ar y ffordd i grwpiau sy'n agored i niwed a nodir yn Fframwaith Diogelwch ar y Ffyrdd gan Lywodraeth Cymru.

Hyrwyddo Cynlluniau Trafnidiaeth Gonsesiynol ac ehangu gwasanaeth Trafnidiaeth Gymunedol Greenlinks i wella'r mynediad at drafndiaeth trwy'r Fro.



Lleihau ein hól-troed carbon trwy leihau allyriadau o adeiladau'r Cyngor, trosi golau strydoedd preswyl yn oleuadau LED ac adolygu ein cerbydau fflyd.



Gwneud cynnydd o ran ailddefnyddio buddiol safle Pentir Nel yn Ynys y Barri a gwella llochesi yn Ynys y Barri i rhoi hwb pellach i'r ardal a denu preswylwyr ac ymwelwyr.

Defnyddio ein Cynllun Datblygu Lleol (sy'n nodi ein polisiâu cynllunio lleol a sut y defnyddir tir) a'i Ganllaw Cynllunio Atodol (canllaw penodol, manylach) i gynorthwyo penderfyniadau cynllunio a sicrhau'r defnydd gorau o dir ac asedau.



Gweithredu rhaglen o brojectau Bioamrywiaeth i wella a diogelu rhywogaethau pwysig a monitro newidiadau yn y dyfroedd arfordirol ac erydu yn unol â'r Cynllun Rheoli'r Arfordir.

Ailfodelu ein seilwaith rheoli gwastraff i gyflawni gwelliannau pellach mewn casglu cynaliadwy a'n perfformiad ailgylchu.

Cynnal ein statws Baner Las a gwobrwyon glan y môr yn dyst i'n traethau a'n cyrchfannau o safon ardderchog a reolir yn dda.




## Holl ddinasyddion Bro Morgannwg yn cael cyfleoedd i gyflawni eu llawn botensial

### Amcan Gwella 5: Codi safonau llwyddiant yn gyffredinol

Ein huchelgais yw sicrhau bod canlyniadau addysg y gorau yng Nghymru a'u bod nhw gystal â rhai awdurdodau mwyaf llwyddiannus Lloegr lle mae'r proffiliau cymdeithasol-economaidd yn debyg.

### Amcan Gwella 6: Gwerthfawrogi diwylliant ac amrywiaeth

Rydym yn parchu ac yn gwerthfawrogi amrywiaeth yn ein cymunedau ac yn cydnabod pwysigrwydd hyrwyddo cyfle cyfartal a'r Gymraeg. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd annog pobl o bob oedran i fwynhau ein treftadaeth a'n diwylliant unigryw.



## Blaenoriaethau ein Cynllun Corfforaethol

- Gwella safonau cyrraedd ar gyfer disgyblion trwy rannu rhagoriaeth rhwng ysgolion a thargedau adnoddau'n well.
- Sicrhau canlyniadau gwell ar gyfer dysgwyr mewn perygl o dangyflawni ac ar gyfer dysgwyr ôl-16 a chreu rhagor o gyfleoedd dysgu i unigolion difreintiedig a theuluoedd agored i niwed.
- Lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant a gweithredu Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol y Gwasanaeth Ieuenctid i sicrhau y gall pobl ifanc (11-25 oed) ddefnyddio'r gwasanaethau cymorth i bobl ifanc.
- Sicrhau canlyniadau uchelgeisiol i ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol fel rhan o'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol.
- Symud y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion yn ei blaen trwy gwblhau Cymuned Ddysgu Llanilltud Fawr a datblygu cynigion ar gyfer darpariaeth ysgolion uwchradd yn y Barri.
- Datblygu Rhaglen Moderneiddio Ysgolion newydd yn barod ar gyfer rhan nesaf cyllid rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif.

## Yn 2018/19, byddwn yn:



Sicrhau bod Cyd-wasanaeth Addysg Consortiwm Canolbarth y De yn gweithredu ei Gynllun Busnes ar gyfer 2018/19 a sicrhau bod y canlyniadau'n effeithio'n gadarnhaol ar safonau llwyddiant a lles pob dysgwr ym Mro Morgannwg.



Gwella adrodd a dulliau amlddisgyblaethol o gynorthwyo pobl ifanc i lwyddo trwy ddatblygu rheoli a defnyddio'r systemau data presennol trwy ein timoedd.



Gwella a datblygu'r gwasanaeth ar gyfer disgyblion y mae arnynt angen addysg mewn sefydliad nad yw'n ysgol (Addysg Heblaw yn yr Ysgol).

Gwella deilliannau dysgu ar gyfer dysgwyr ôl-16 trwy sicrhau bod ysgolion yn cynllunio'n effeithiol ac yn rhoi her ychwanegol ar gyfer y cynnig cwricwlwm ôl-16.

Hyrwyddo mynediad digidol a llythrennedd, yn arbennig mewn perthynas ag ardaloedd difreintiedig a grwpiau y mae'n anodd cysylltu â nhw.

Defnyddio arian Ewropeaidd a gweithio â'n partneriaid i gynyddu nifer y bobl ifanc 18-24 oed sy'n mynd i mewn i gyflogaeth neu hyfforddiant.

Ail-strwythuro'r Gwasanaeth Ieuenctid i wella mynediad at wasanaethau ieuenctid i bobl ifanc.



Gweithredu a monitro effaith y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a datblygu systemau tracio ar gyfer disgyblion ag ADY er mwyn cyflawni'r canlyniadau.

Parhau i wella cyfleusterau addysgol a pharatoi'r holl broiectau a gymeradwyir ar gyfer cyllid dan Fand B rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif.

## Blaenoriaethau ein Cynllun Corfforaethol

## Yn 2018/19, byddwn yn:

- Gwellu ein gwybodaeth am anghenion amrywiol y gymuned fel y gall grwpiau o bobl a ddiogelir dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ddefnyddio gwasanaethau'r Cyngor yn well.
- Gweithio â phartneriaid i hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg.
- Gweithredu Safonau'r Gymraeg i wella mynediad at wasanaethau a gwybodaeth.
- Gweithio â phartneriaid yn y gymuned i weithredu gwasanaeth llyfrgell bywiog ac amrywiol.
- Adolygu a gweithredu Strategaeth Gelfyddydau'r Fro gyda mwy o ffocws ar farchnata a gweithio rhanbarthol.
- Diogelu, cadw a gwella treftadaeth adeiledig, naturiol a diwylliannol Bro Morgannwg.



Gwellu ein data monitro cydraddoldeb a safon ein hasesiadau effaith i wella mynediad at wasanaethau i'r holl gwsmeriaid. Rhoi ein cynllun gweithredu Stonewall ar waith i sicrhau bod y Cyngor yn parhau i fod yn weithle sy'n cynnwys pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol.

Parhau i hyrwyddo'r Gymraeg trwy weithredu ein Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg a Safonau'r Gymraeg.



Parhau i weithio â phartneriaid yn y gymuned i weithredu gwasanaeth llyfrgell bywiog ac amrywiol a datblygu ystod eang o gyfleoedd dysgu i gynyddu defnydd ac ymgysylltu yng Nghanolfan Dysgu Agored Bro Morgannwg. Lansio a gweithredu'r Strategaeth Gelfyddydol newydd i ddatblygu a chreu dulliau newydd i gefnogi'r celfyddydau yn y Fro.



Diogelu a gwella treftadaeth adeiledig, naturiol a diwylliannol Bro Morgannwg trwy wneud penderfyniadau cynllunio effeithiol a hyrwyddo rhagoriaeth adeiladu trwy wobrau Rheoli Adeiladau Awdurdodau Lleol.




## Preswylwyr Bro Morgannwg yn byw'n iach a phobl sy'n agored i niwed yn cael eu diogelu a'u cefnogi

### Amcan Gwella 7: Annog a hyrwyddo byw'n iach ac yn actif

Mae atal ac ymyrraeth gynnar yn elfennau canolog o ran gwella lles a hyrwyddo iechyd da pobl. Mae hefyd angen rhagor o bwyslais ar annog cyfranogi mewn gweithgareddau corfforol er mwyn cefnogi byw'n iach a gwella ansawdd bywyd.

### Amcan Gwella 8: Hyrwyddo datblygu cynaliadwy a diogelu ein hamgylchedd

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd mynd i'r afael ag anghydraddoldebau a diogelu ein preswylwyr mwyaf agored i niwed. Trwy weithio â phartneriaid, gallwn ymuno a gwella'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol sy'n rhoi anghenion y cwsmer yn gyntaf ac yn gwneud gwahaniaeth sylweddol i les ein preswylwyr, teuluoedd a gofalwyr sydd fwyaf agored i niwed.



## Blaenoriaethau ein Cynllun Corfforaethol

- Gweithio gyda phartneriaid i gynnig ystod o weithgareddau trwy ein cyfleusterau cymunedol a pharciau i gynyddu lefelau cyfranogi mewn gweithgareddau corfforol.
- Gweithredu rhaglen chwarae gynhwysfawr sy'n gwella lles plant a'u teuluoedd.
- Cynnig ystod o wasanaethau'r blynyddoedd cynnar a gwybodaeth i rieni, mynediad at ofal plant a chyfleoedd dysgu.
- Gweithio gyda Bwrdd Iechyd a Lles Caerdydd a'r Fro i gymryd camau gweithredu i fynd i'r afael â gordewdra ac annog bwyta a byw'n iach.
- Gweithio gyda phartneriaid i weithredu Strategaeth Gomisiynu Camddefnyddio Sylweddau Caerdydd a'r Fro 2013-2018.
- Cyrraedd statws Baner Werdd ar gyfer 7 parc sy'n dangos amwynderau da a gweithgarwch cymunedol, yn y parciau.

## Yn 2018/19, byddwn yn:



Codi lefelau cyfranogi mewn gweithgarwch corfforol yn y Fro trwy weithredu Strategaeth Hamdden, ein Cytundeb Partneriaeth Awdurdod Lleol gyda Chwaraeon Cymru a rhaglen chwarae flynyddol.

Parhau i weithio mewn partneriaeth i gynnig ystod o wasanaethau trwy ein cyfleusterau hamdden a chymunedol a'n parciau i wella lles preswylwyr y Fro.



Cyfrannu at agenda iechyd Cyhoeddus Cymru trwy weithio â phartneriaid i hyrwyddo byw'n iach o fewn ein cymunedau. Hyrwyddo byw'n iach yn ein hysgolion a monitro ein cydweithrediad â rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru).



Cynnal ein 7 gwobr Baner Werdd sy'n cydnabod y parciau ac ardaloedd gwyrdd a reolir yn dda trwy'r Fro.

Parhau i weithio â phartneriaid i atal a lleihau achosion o gamddefnyddio sylweddau a niwed cysylltiedig trwy weithredu Strategaeth Gomisiynu Camddefnyddio Sylweddau Caerdydd a'r Fro.



Gweithio â'n partneriaid yn rhanbarthol i ddatblygu Strategaeth Llety a Gofal ac ehangu ein Gwasanaeth Lleoli Oedolion i roi'r gallu i bobl hŷn aros yn annibynnol cyhyd ag sydd bosibl.

Integreiddio gwasanaethau Gofal Cymdeithasol ac Iechyd trwy: atgyfnerthu ac ehangu'r Gwasanaethau a Rennir; parhau i bennu cyfleoedd comisiynu ar y cyd; defnyddio arian mor effeithlon â phosibl a datblygu dull mwy cydlynol o wella gwasanaethau ataliol.



Parhau i wella mynediad at wybodaeth a gwasanaethau cynghori ar gyfer cleientiaid, teuluoedd a phartneriaid trwy ddatblygu Canolfan Gyswllt Cwsmeriaid y Cyngor fel un pwynt mynediad ar gyfer gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol cymunedol ac ehangu'r defnydd o DEWIS, adnodd gwybodaeth hunanwasanaeth gofal cymdeithasol i oedolion ar-lein

Parhau i weithio tuag at gydymffurfio a gweithredu Deddf Llesiant a Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) trwy gynnal nifer o wasanaethau megis adolygu ein prosesau ar gyfer Oedolion mewn Perygl, sefydlu Panel Dinasyddion a hyrwyddo atebolrwydd trwy gynorthwyo Llywodraeth Cymru wrth adolygu a gweithredu'r Fframwaith Mesur Perfformiad Cenedlaethol.



Cynorthwyo oedolion a phobl hŷn ag anghenion iechyd meddwl trwy weithredu model newydd o ofal a gweithio gyda phartneriaid i lansio Strategaeth Ddemensia 10 blynedd o hyd i integreiddio gwasanaethau'n well.

Monitro cydymffurfiaeth â'r Polisi Diogelu a gweithredu'r argymhellion yn yr adolygiad archwilio diogelu mewnol, yn cynnwys gweithredu gweithdai hyfforddiant i staff.

Gweithio tuag at ddiogelu ein preswylwyr sy'n agored i niwed trwy gynnal gweithgareddau amrywiol yn cynnwys adolygiad Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant, cefnogi adolygiad cenedlaethol ar Weithdrefnau Amddiffyn Plant ac Oedolion, cwblhau archwiliad bwyd blynyddol mewn lleoliadau masnachol lle mae pobl agored i niwed yn bresennol, cynnal ymyriadau iechyd a diogelwch mewn cartrefi gofal a monitro achosion o glefydau trosglwyddadwy mewn ysgolion.

- Gweithredu ffyrdd newydd o weithio yn unol â Deddf Lles Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru).
- Gwella mynediad at y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol trwy ei gwneud hi'n gynt, yn haws ac yn fwy amrywiol i ddefnyddio'r gwasanaethau.
- Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu integreiddio gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion a gwasanaethau iechyd cymunedol.
- Ystyried opsiynau ar gyfer systemau TGCh integredig, unigol a chyllidebau integredig trwy ranbarth Caerdydd a'r Fro ar gyfer gofal cymdeithasol.
- Datblygu a gweithredu polisi corfforaethol ar ddiogelu.
- Lleihau'r cyfnodau aros wrth drosglwyddo gofal (rhyddhau) o'r ysbyty a gweithredu'r Gwasanaeth Atebion Llety.
- Adolygu llety gydag opsiynau gofal ar gyfer pobl hŷn a datblygu strategaeth gomisiynu ar gyfer y dyfodol.
- Gwella gweithdrefnau â darparwyr gofal nyrsio, preswyl a chartref i alluogi ymyrraeth gynnar ac atal digwyddiadau rhag cael eu huwchgwyfeirio a gweithredu rhaglen o arolygu lleoliadau sy'n cynnal gweithgareddau masnachol sy'n effeithio ar bobl sy'n agored i niwed.

## Cynllunio integredig yw'r ffactor allweddol ar gyfer llwyddo...

... mae'n galluogi gweithredu ein Blaenoriaethau Cynllun Corfforaethol a'n Hamcanion Gwella (Amcanion Lles) a chyfrannu at gyrraedd Targedau Lles a'r pum ffordd o weithio. Mae'n cynnwys mabwysiadu dull integredig o reoli risg, rheoli ariannol, cynllunio'r gweithlu, rheoli perfformiad a rheoli gwybodaeth.



### Ein ffordd o weithio...

Mae pob agwedd ar yr hyn rydym yn ei wneud yn seiliedig ar ein pum ffordd o weithio.

INTEGREIDDIO

CYDWEITHIO

CYNNWYSPOBL

ATAL

HIRDYMER

### Ein Blaenoriaethau Cynllunio Integredig

Yn 2017/18, byddwn yn:

Gweithredu rhaglen trawsnewid y Cyngor, Ail-siapio Gwasanaethau er mwyn gallu ateb anghenion dinasyddion Bro Morgannwg yn y dyfodol yng nghyd-destun yr heriau ariannol nas profwyd eu math o'r blaen.



Alinio cynllun y gweithlu â'r Strategaeth Ail-lunio Gwasanaethau gan sicrhau bod gan staff y sgiliau a'r hyfforddiant sydd eu hangen i addasu i'r newidiadau yn y ffordd y caiff gwasanaethau eu cynllunio a'u darparu.



- Datblygu agenda ail-siapio'r Cyngor a datblygu projectau tranche 3 fel y nodwyd gan fwrdd rhaglen y Cyngor.
- Gweithio gyda gwasanaethau i sicrhau bod cymorth, hyfforddiant ac adnoddau priodol i wireddu'r rhaglen trawsnewid.
- Datblygu ail-siapio gweithgareddau megis adolygu a chwtogi ar lety swyddfa, adolygu gwariant ar drydydd partion a chyfrannu at dargedau arbedion y Cyngor a nodwyd ar gyfer 2018/19.
- Parhau i ddatblygu ffrydiau gwaith project corfforaethol o ran Cynghorau Tref a Chymuned (o ran y rôl bosibl y gallent ei chwarae wrth reoli asedau cymunedol a gweithredu gwasanaethau), Rheoli Galw (edrych ar sut rydym yn cynllunio a rheoli darparu gwasanaethau ar gyfer y dyfodol), Effeithiolrwydd Gwario (trafod gwneud y defnydd gorau o arian grant), a'r Fro Ddigidol (sy'n canolbwyntio ar ffyrdd o ddarparu gwasanaethau'n ddigidol a chynyddu sgiliau digidol ein preswylwyr a staff).
- Ymgynghori ar gyllideb 2019/20 y Cyngor gyda phreswylwyr a rhanddeiliaid allweddol i ddiffinio blaenoriaethau ar gyfer darparu gwasanaethau.
- Defnyddio'r Strategaeth Creu Incwm fel dull o greu a chynyddu incwm er mwyn ail-fuddsoddi yng ngwasanaethau'r Cyngor.
- Parhau i sicrhau bod cyflogaeth yn ymgysylltu'n weithredol ac yn cael llais o ran siapio gwasanaethau'r Cyngor yn y dyfodol.
- Adolygu, gwella a gweithredu ein Cynllun Cynllunio Olynol a Rheoli Talent a gwella'r holl wasanaethau i atgyfnerthu trefniadau rheoli presenoldeb er mwyn lleihau'r lefelau absenoldeb a gwella gwydnwch y gwasanaeth.
- Cynnal adolygiad o sgiliau staff trwy'r Cyngor er mwyn gwella capasiti.
- Adolygu'r polisiau cyflogaeth allweddol a chynorthwyo anghenion datblygu sy'n gysylltiedig â Strategaeth Ddigidol y Cyngor.
- Adolygu a chwtogi ar ddefnydd o weithwyr asiantaeth trwy'r Cyngor yn unol â chynllunio'r gweithlu ac ail-siapio blaenoriaethau.

### Sut y byddwn yn mesur ein cynnydd?

Rydym yn adolygu ein cynnydd bob tri mis trwy adrodd i'n haelodaeth etholedig a'r cynnydd yng nghyd-destun y gwelliannau a wnaed a'r meysydd ar gyfer gwella. Rydym yn gwneud hyn trwy adroddi i Dîm Rheoli Corfforaethol y Cyngor, y Cabinet a'r Pwyllgorau Craffu mewn adroddiadau perfformiad y gellir eu gweld ar [wefan y Cyngor](#).



Yn ogystal â chyhoeddi ein Hamcanion Gwella, rydym yn cyhoeddi Adroddiad Blyneddol ar ddiwedd mis Hydref sy'n adolygu ein perfformiad mewn perthynas â'n Hamcanion Gwella o'r flwyddyn flaenorol a elwir yn Gynllun Gwella Rhan 2. Byddwn yn adrodd ein cynnydd cyffredinol yng nghyd-destun Amcanion Gwella 2017-2018 ym mis Hydref 2018.

### Sut mae cymryd rhan?

Gallwch gymryd rhan trwy ymuno â Barn Bro Morgannwg (ein Panel Preswylwyr) a chymryd rhan yn ein gweithgareddau ymgynghori. I ymuno, cwblhewch y [ffurflen fer hon ar-lein](#).

Mae'r Pwyllgorau Craffu ar agor i'r cyhoedd felly gallwch gymryd rhan trwy gwblhau [Ffurflen Ystyried](#)



[Adolygu](#). Gallwch hefyd gofrestru er mwyn siarad ar [wefan](#) y Cyngor.



Ysgrifennwch atom i wneud sylwadau am y Cynllun Gwella neu i gynnig Amcanion Gwella newydd: Perfformiad a Datblygu, Bro Morgannwg, Swyddfeydd Dinesig, Heol Holltwn, y Barri, CF63 4RU. Siaradwch â ni drwy ffonio 01446 700101 neu e-bostiwch ni yn [improvements@valeofglamorgan.gov.uk](mailto:improvements@valeofglamorgan.gov.uk)